

Y MAE esbonio ystyr enwau lleoedd yn un o'r ffug-wyddorau hynaf sy'n bod. Edrychwch yn yr Hen Destament am yr 'esboniadau' ar enwau megis Bethel a Beersheba, yn y Newydd am Aceldama a Golgotha. Darllenwch hanes Groeg a Rhufain, a chewch 'esboniadau' ar enwau megis Ewrop, Asia, yr Helespont, Athen a Rhufain.

Yng nghyfrwl hynod Sieffre o Fynwy am Frenhinoedd Prydain, ceir esboniadau ar enwau megis Alban, Prydain a Chymru, ac ym Mhedair Caint y Mabinogi y mae lliaws o enwau lleoedd wedi eu clymu wrth yr hanesion hynafol.

Un o'r esboniadau rhyfeddaf yn y llenyddiaeth gynnar yw'r un a gynigir yn *Breuddwyd Maxen* ar yr enw 'Llydaw'. Dywedir bod y Cymry a aeth o Brydain i Armorica wedi priodi'r merched lleol, ac er mwyn sicrhau mai iaith eu tadau fyddai iaith y plant, torrwyd tafodau'r merched oll — felly roedd hanner y genedl newydd yn dawel — 'lled + taw'.

Nid yw traddodiad y ffug-esboniad wedi marw yng Nghymru o bell ffordd. Yn wir, y mae peth o ffortiwn trigolion Beddgelert yn ddyledus i enw'r pentref a chwedl ei Llywelyn, ac nid yw'r cof am dderwen Myrddin yn nhref Caerfyrddin wedi diflannu'n llwyr, er i'r dderwen fynd ers tro.

Ar draws gwlad, y mae trigolion fferm a phentref wedi consorio esboniadau ar gyfer enwau eu cynefin, gan wrthod esboniadau ysgolheigaidd. Pa brosesau sydd wrth wraidd esbonio enwau lleoedd?

\* \* \* \*

GALLWN fod yn sicr bod pob enw lle wedi bod yn ddealladwy amser yr enwi gwreiddiol. Ond y mae dwy broses yn gallu digwydd; un yw newid iaith yr ardal, fel bod y mewn-ddyfodiad yn methu deall yr enwau lleol, ond yn eu camddeall a'u cam-

# GERALD MORGAN a RHAMANT CASGLU'R ENWAU LLEOEDD

yn ganu. Y llall yw llygriad naturiol neu gamddeall gyda threigl y blynyddoedd.

Wedyn fe geir ymdrech gan y trigolion i ddyfeisio esboniad ar yr enw fel y mae, heb ddeall bod yr enw cysefin yn eithaf gwahanol, ac efallai'n ddyrys.

Ers can mlynedd y mae ysgolheigion yng Nghymru wedi bod yn ymdrechu i esbonio enwau lleoedd mewn dull gwyddonol. Hynny yw, rhaid darganfod y ffurf hynaf ar yr enw, penderfynu i ba iaith y mae'n perthyn, a chynnig esboniad yn ôl amodau'r tirwedd a'r amgylchiadau hanesyddol.

Y dyn cyntaf i wneud hynny yng Nghymru oedd Egerton Phillimore. Sais oedd Phillimore, er iddo honni fod rhai o'i hynafiaid yn Gymry. Ganed ef yn Llundain yn 1856, ac astudiodd bethau Celtaidd yn Rhydychen gyda Whitley Stokes a John Rhys. Meistrrolodd y Gymraeg yn llwyr, a daeth i fyw i Gymru; treuliodd ei flynyddoedd olaf mewn bwthyn yng Nghorris, a marw yno yn 1937.

Ei gyfraniad pwysicaf oedd yr esboniadau ar enwau lleoedd a gyhoeddodd mewn nodiadau manwl i gampwaith George Owen, *A Description of Pembrokeshire* a olygwyd gan Henry Owen ac a ymddangosodd mewn pedair cyfrol rhwng 1902 a 1936.

Mae'r nodiadau hyn yn werthfawr ar gyfer Cymru oll, ac nid ar gyfer un sir yn unig. Gwaetha'r modd, bu farw llawer o wybodaeth gyda Phillimore.

\* \* \* \*

PERTHYNAI'R genhedlaeth nesaf o esbonwyr enwau lleoedd Cymru i Oes Aur ysgolheictod — John Lloyd-Jones ac Ifor Williams. Cyhoeddodd Lloyd-Jones ei *Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon* yn 1928 — y gyfrol gyfan gyntaf i drafod y maes yn wyddonol. Rhaid bod gobeithion y sawl a ymddiddorai yn y maes yn uchel, oherwydd er nad oedd y gyfrol yn gynhwysfawr, roedd yn safonol.

Roedd yn gyfoes â chyfrolau cynnar yr *English Place-name Society* (EPNS), sydd wedi gwneud gwaith rhyfeddol ers 1922 yn trafod mwyafrif siroedd Lloegr. Ond fe aeth John Lloyd-Jones ati i weithio ar y farddoniaeth gynnar, ac ni ddaeth cyfrol arall ar enwau lleoedd o'i law.

Yn 1930 apeliodd Allan Mawer, a oedd yn un o sefydlwyr yr EPNS ac yn ysgolhaig Saesneg

o fri, at Lys y Brifysgol i noddi gwaith tebyg i'r EPNS, ond yn ofer.

Cyfrannodd Syr Ifor Williams yn aruthrol at ein dealltwriaeth o enwau lleoedd Cymru. Yn ei waith yn golygu *Canu Aneirin*, *Canu Llywarch Hen*, *Pedeir Keinc y Mabinogi* a *Canu Taliesin*, ac mewn lluo o erthyglau dysgedig, dadansoddodd gannoedd o enwau dyrys.

Yn ychwanegol, yn 1946 fe gyhoeddodd *Enwau Lleoedd*, cyfrol fechan hynod ddifyr, yn trafod enwau Cymru mewn dull 'tirweddol'; ceir penodau ar Fynydd a Bryn, Dyffryn a Phant, Afon a Ffrwd, ac ati.

\* \* \* \*

ROEDD blwyddyn cyhoeddi *Canu Aneirin*, sef 1938, yn *annus mirabilis* yn hanes astudio enwau lleoedd Cymru. Cyhoeddwyd hefyd *Non-Celtic Place-Names in Wales* gan B. G. Charles — llyfr pwysig ond siomedig iawn i Gardi, gan na chynhwysodd Sir Aberteifi yn ei faes astudio!

Mae'n wir mai prin yw'r enwau eston yn y sir ar yr olwg gyntaf — ond heblaw hen bosau fel Chancery a Bow Street ac Oakford, ceir enwau megis Clarach.

Y gyfrol arall a ymddangosodd yn 1938 oedd cyfrol gyntaf *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru*, gan R. J. Thomas. O'r diwedd roedd modd tybio y byddai ysgolhaig a hyfforddwyd ym maes enwau lleoedd yn treulio ei oes yn llafurio yn y maes — ac yr oedd wedi treulio cyfnodau yng Nghorris yn trafod y pwnc gydag Egerton Phillimore.

Ond gwaetha'r modd, ymyrrodd y Rhyfel a Geiriadur Prifysgol Cymru yng ngyrfa R. J. Thomas; nid ymddangosodd ail gyfrol ei astudiaeth byth.

Yn nechrau'r 50au daeth cyfraniad o ochr draw Clawdd Offa, sef campwaith y diweddar Kenneth Jackson, *Language and History of Early Britain* (1953). Yn adeiladu'n ddiogel ar seiliau a osodwyd gan Syr Ifor Williams ac eraill, rhoes Jackson ddadansoddiad manwl a threiddgar o ddatblygiad cynnar yr iaith Gymraeg, a dadansoddi rhai o enwau lleoedd Cymraeg Lloegr.

\* \* \* \*

ERS DIWEDD y tridegau roedd ysgolhaig arall yn paratoui ar gyfer oes o waith yn casglu ac yn trafod enwau lleoedd Cymru — Melville Richards. Dyma ddy'n a

welai'r anghenion yn glir, ac a ymroes i ddarllen y testunau Cymraeg, y cofnodion swyddogol a chyfreithiol, a mapiau'r Degwm a'r Llywodraeth, oll yn drwyadl.

Dros y blynyddoedd fe greodd archif unigryw — 160 o ddeir pren, bob un yn cynnwys mil neu ragor o slipiau yn cofnodi miloedd lawer o enwau. Rhwng 1950 a'i farw annhymig yn 1974 fe gyhoeddodd dros drigain o erthyglau ysgolheigaidd a nifer o lyfrau pwysig, heblaw'r gyfres enwog o 166 erthygl boblogaidd yn *Y Cymro*.

Roedd yn waith arloesol; er bod y dasg a oedd ganddo mewn golwg yn amhosibl i unrhyw un meidrollyn, roedd ei lwyddiant yn gosod seiliau yn ysgubol, ac yr ydym yn ffodus iawn bod yr archif yn nwylo diogel yr Athro Bedwyr Lewis Jones a Mr Tomos Roberts.

Y mae'r tim hwn wedi cynorthwyo llawer yn eu gwaith ymchwil, ac wedi cyfrannu'n helaeth at ddealltwriaeth gyhoeddus o enwau lleoedd y wlad. Erbyn cyhoeddi'r rhifyn hwn o'r *Casglwr*, bydd llyfr *Enwau yr Athro Bedwyr Lewis Jones* wedi ei gyhoeddi, ac o bosibl wedi mynd allan o brint!

\* \* \* \*

DEUAI gweithwyr eraill i'r willan o un ac un; Dewi Machreth Ellis ym Maldwyn, Iolo Dafydd ym Maesyfed, Hywel Wyn Owen yng Nghlwyd (a'i lyfr difyr ar gyfer ysgolion), ac yn enwedig yr Athro Gwynedd O. Pierce ym Morgannwg, gyda'i lyfr ar enwau lleoedd Dinas Powys, a lliaws o erthyglau pwysig, ar enwau Morgannwg yn bennaf.

Y mae ymchwilwyr eraill wedi astudio gweddau arbennig ar enwau lleoedd, megis erthyglau Colin Thomas yn defnyddio enwau meysydd ym Meirionnydd i ddangos natur cyfanheddiad a datblygiad amaethyddol.

O'r diwedd, yn 1988, fe ddaeth symudiad ar ran Bwrdd Gwybodau Celtaidd y Brifysgol, pan sefydlwyd 'Arolwg Enwau Lleoedd Cymru'. Yr Athrawon Gwynedd O. Pierce a Bedwyr Lewis Jones yw'r cyfarwyddwyr, ac er bod yr ariannu gwreiddiol yn rhy fach i gyflogi gweithwyr amser-llawn, y mae dyn yn gobeithio y daw datblygiadau i'r dyfodol, yn enwedig o hameisio cyfrifiaduron i'r gwaith.

Y mae casglu manwl yn digwydd mewn mwy nag un ardal — gwaith araf ar y gorau, oherwydd yr angen i grynhoi lliaws o ffurfiau ar gyfer pob enw. Gellir synio maint y dasg wrth gofio bod angen pum cyfrol sylweddol i gynnwys arolwg yr EPNS o enwau lleoedd Swydd Caer — efallai y byddai angen rhyw ddeugain cyfrol ar gyfer Cymru oll!



**Gwasg  
Gwynedd**

**Cibyn  
Caernarfon  
Gwynedd**

**Argraffwyr  
a  
Chyhoeddwyr**

**Ffon:  
Caernarfon  
(0286) 4486**